Adroddiad ar

Gylch Meithrin Dolgellau

Canolfan Deulu Dolgellau
Drill Hall,
Smithfield Street,
Dolgellau,
Gwynedd
LL40 1DE

Dyddiad yr arolygiad:  Mehefin 2026

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Dolgellau

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Dolgellau |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Gwenllian Lansdown Davies |
| Person â gofal | Glesni Davenport, Keely Moncur, Sarah Edwards, Cara Parry-Williams a Niamh Gladstone |
| Nifer y lleoedd | 48 |
| Ystod oedran y plant | 0-4 mlwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 38 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 9 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 08.00 – 17.00 Dydd Llun – Dydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 23/09/2024 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 22/06/2019 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 02/06/2026 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol** |

## Diffyg cydymffurfio

Hysbyswyd y darparwr nad yw'r lleoliad yn cydymffurfio â'r rheoliadau; ni chyflwynwyd hysbysiad, ond mae'r rhain yn cael eu hadnabod fel meysydd i'w gwella, a dylai'r arweinwyr roddi sylw iddynt.

## Argymhellion

A1 Datblygu ymhellach ddealltwriaeth pob ymarferydd yn y defnydd o arsylwadau a chyfleoedd asesu a'u defnyddio i gefnogi plant yn fwy effeithiol yn eu chwarae a'u dysgu.

A2 Mynd i'r afael â'r meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae gan y rhan fwyaf o blant lais cadarn wrth ddewis gweithgareddau a chyfarwyddo eu chwarae. Maent yn symud yn rhydd o amgylch yr ardaloedd ac yn dewis ble a gyda phwy i chwarae. Mae plant yn hyderus i helpu eu hunain i adnoddau o fewn eu cyrraedd, er enghraifft wrth ddefnyddio adnoddau toes i ymestyn y gweithgaredd ymhellach. Mae hyn yn eu galluogi i wneud dewisiadau syml a datblygu ymdeimlad o reolaeth dros eu profiadau.

Mae bron bob un plentyn yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, gan ymgartrefu'n gyflym a dangos ymdeimlad o sicrwydd. Maent yn hyderus i ofyn am gymorth neu gael cysur gan ymarferwyr, pan fo angen, ac maent yn amlwg yn elwa ar berthnasoedd cadarnhaol. Mae lleiafrif o'r plant yn dechrau datblygu dealltwriaeth o'u teimladau, gan ddefnyddio adnoddau syml i enwi emosiynau ac ymateb i sefyllfaoedd mewn ffordd gadarnhaol. Er enghraifft, mae plant yn datblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol wrth helpu eraill i ddeall pwysigrwydd disgwyl eu tro cyn mynd i gael cinio.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn rhyngweithio'n briodol ac yn addas ar gyfer eu hoedrannau a'u camau datblygiadol. Mae ychydig yn defnyddio geiriau ac ymadroddion syml, tra bod eraill yn defnyddio ystumiau i gefnogi dealltwriaeth. Mae plant yn dysgu rhannu adnoddau ac yn dechrau cymryd tro, er enghraifft wrth gydweithio i arllwys dŵr neu rannu offer chwarae rôl cymorth cyntaf. Mae rhai plant yn dangos brwdfrydedd wrth gyfathrebu ag oedolion a'u ffrindiau, gan wahodd ymarferwyr i ymuno yn eu chwarae

Mae plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu, ac yn dangos brwdfrydedd wrth archwilio'r holl adnoddau a'r gweithgareddau. Mae ychydig o'r plant yn dechrau datblygu syniadau creadigol a chreu naratif, er enghraifft wrth ddefnyddio dinosoriaid yn yr ardal byd bach. Mae plant yn mwynhau cydbwysedd addas rhwng cyfnodau strwythuredig a chwarae rhydd, ac yn dewis ymlacio mewn ardaloedd tawel wedi cyfnodau prysur o chwarae.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibyniaeth sy'n addas i'w hoedrannau. Maent yn rheoli tasgau dyddiol yn briodol, er enghraifft wrth olchi dwylo, pan fo angen, neu ddyfalbarhau i wisgo cotiau a pharatoi i fynd allan i chwarae. Mae ychydig o'r plant yn cymryd rhan mewn trefniadau'r dydd, fel bod yn helpwr y dydd, ac yn cefnogi gyda tasgau syml sy'n cefnogi ymdeimlad o gyfrifoldeb a hyder mewn datblygiad personol a medrau bywyd.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae'r rhan fwyaf o'r plant, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Maent yn datblygu ystod bwrpasol o fedrau yn effeithiol wrth chwarae a dysgu, yn enwedig eu medrau annibynnol, sy'n datblygu'n gadarn.

Mae bron bob un o'r plant yn datblygu medrau corfforol cadarn. Maent yn egnïol yn gorfforol ac yn dangos rheolaeth gynyddol yn eu chwarae. Wrth ddefnyddio offer gwahanol, maent yn dygymod yn dda â heriau corfforol gan arddangos cydbwysedd effeithiol wrth ddefnyddio'r cwrs rhwystrau. Mae medrau modur mân y rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n fedrus, er enghraifft wrth ddefnyddio gefel i godi pasta a reis o un bowlen i'r llall.

Mae mwyafrif y plant yn dangos diddordeb mewn llyfrau a'u trin â pharch ac yn mwynhau edrych arnynt gydag oedolyn ac yn annibynnol. Mae eu medrau cyn darllen yn datblygu'n effeithiol; er enghraifft, mae'r rhan fwyaf yn adnabod eu henwau ar labeli ac yn eu defnyddio'n annibynnol wrth gofrestru ac wrth chwilio am eu mat bwrdd amser byrbryd. Mae medrau llafar y rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n effeithiol iawn ac maent yn meddu ar fedrau iaith cadarn a geirfa eang. Er enghraifft, maent yn hyderus wrth drafod pa fath o fwyd sydd angen ei baratoi yn y gegin. Maent yn ymateb yn hyderus yn y Gymraeg ac yn frwdfrydig i ymuno wrth ganu. Yn ystod eu chwarae, mae'r rhan fwyaf yn dechrau datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn effeithiol. Maent yn creu marciau'n fwriadus gyda chyfryngau gwahanol fel paent, sialc, a chreonau.

Mae mwyafrif y plant yn defnyddio iaith fathemategol yn gywir mewn cyd-destunau priodol. Mae ganddynt fedrau rhifedd da ac maent yn mwynhau arbrofi gydag ystod eang o offer mathemategol. Maent yn cyfrif yn hyderus wrth ychwanegu petalau i'r toes a cherrig i greu hwyneb.

Mae'r mwyafrif yn datblygu medrau digidol cynnar yn effeithiol. Maent yn manteisio ar y cyfleoedd cyfoethog sydd ar gael iddynt. Er enghraifft, maent yn rhannu radio symudol tra'n chwarae rôl. O ganlyniad, maent yn ymgyfarwyddo'n dda ac yn cymhwyso eu medrau digidol cynnar yn ystyrlon.

Mae medrau personol, cymdeithasol ac emosiynol y rhan fwyaf o'r plant yn gryf. Maent yn hollol annibynnol wrth gyd-chwarae gyda'u ffrindiau ac yn dangos parch aeddfed tuag at gyfraniadau eraill.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac yn iach drwy weithredu trefniadau cyson a chadarn. Mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o bolisïau a gweithdrefnau; er enghraifft, maent yn dilyn trefn hylendid yn gyffredinol wrth lanhau arwynebau, newid clytiau ac atgoffa plant i gynnal hylendid personol. Mae ymarferwyr wedi hyfforddi'n briodol mewn cymhwyster gofal plant a diogelu i'r lefel briodol, ac mae nifer addas wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf a hylendid bwyd. Mae'r ymarferwyr yn gweithredu'n brydlon i gynnal arferion drwy gryfhau trefniadau cofnodi a sicrhau bod gwybodaeth drylwyr yn cael ei rhannu yn briodol. O ganlyniad, mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Maent yn cwblhau cofnodion meddyginiaeth, damweiniau a digwyddiadau, a chofrestrau plant yn briodol, ac mae systemau gwahanol i gofnodi cofrestrau staff drwy ap digidol a chofnodion papur. Er hyn, nid oes systemau clir i gofnodi amseroedd presenoldeb ymarferwyr i gynnwys adegau pan mae ymarferwyr yn gadael y lleoliad er mwyn dangos yn glir pwy sy'n bresennol yn y lleoliad ac yn gofalu am blant drwy'r amser. Mae ymarferwyr yn gweithio fel tîm i sicrhau goruchwyliaeth gyson o blant wrth iddynt symud rhwng ardaloedd ac yn yr ardal awyr agored. Maent yn cefnogi plant yn ofalus wrth ddefnyddio adnoddau dringo neu gymryd rhan mewn gweithgareddau heriol.

Mae ymarferwyr yn rhyngweithio'n gadarnhaol â phlant ac yn meithrin perthnasoedd cynnes a chefnogol. Maent yn dangos parch a charedigrwydd ac yn modelu ymddygiad priodol yn effeithiol, ac mae plant yn ymateb yn dda ac yn dechrau defnyddio dulliau tebyg wrth ymddwyn tuag at eraill. Mae ymarferwyr hefyd yn defnyddio canmoliaeth ac anogaeth yn effeithiol i gefnogi ymddygiad cadarnhaol, er enghraifft wrth ganmol plant am rannu neu cymryd tro. Maent yn cyfathrebu'n glir gan roi digon o rybudd ac amser i blant os bydd newidiadau yn y drefn ddyddiol, er enghraifft wrth symud o'r ardal tu allan i ddod i mewn, neu cyn amseroedd tacluso. Mae ymarferwyr yn dechrau defnyddio cardiau cyfathrebu er mwyn hybu dealltwriaeth plant o ddisgwyliadau'r lleoliad, er enghraifft cerdyn wyneb hapus neu symbolau syml i ddangos cyfarwyddiadau.

Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn adnabod anghenion y plant yn dda ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i gefnogi eu datblygiad yn briodol. Mae ymarferwyr yn arsylwi plant yn rheolaidd er mwyn llywio cynlluniau a'u camau nesaf. Maent hefyd yn datblygu dull o rannu gwybodaeth am gynnydd plant drwy ddefnyddio system ddigidol a thrafodaethau gyda rhieni ar ddiwedd sesiynau. Mae ymarferwyr yn ymwybodol o anghenion dysgu ychwanegol (ADY) plant ac yn defnyddio strategaethau effeithiol i'w cefnogi. Mae tîm penodol o ymarferwyr ADY yn cydweithio'n briodol ag arweinwyr ac asiantaethau allanol i ddarparu cymorth i blant ac ymarferwyr, pan fo angen, i sicrhau bod pob plentyn yn datblygu ac yn gwneud cynnydd.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu diddorol sy’n annog datblygiad plant yn briodol. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd gadael i blant ddysgu drwy chwarae, ac yn darparu cyfleoedd buddiol iddynt chwilota, arbrofi a datrys problemau. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus, annibynnol sy’n barod iawn i roi cynnig ar brofiadau newydd.

Mae ymarferwyr yn modelu iaith raenus yn barhaus ac yn gwneud defnydd effeithiol o ganeuon i ddatblygu medrau plant. Maent yn darparu ystod eang o gyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau ysgrifennu cynnar ac i greu marciau. Mae nodiaduron a phensiliau, pennau ffelt a llechi ar gael a phatrymau i’w copïo yn y twba tywod. O ganlyniad, mae medrau ysgrifennu cynnar y rhan fwyaf o blant yn datblygu’n dda.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau corfforol yn gadarn. Mae ymarferwyr yn darparu amrediad o adnoddau pwrpasol sy’n caniatáu i’r plant ddatblygu medrau cydbwyso corfforol cryf. Maent yn darparu cyfleoedd buddiol i’r plant gymryd risgiau addas, er enghraifft drwy ddarparu offer go iawn fel sgriwdreifer a hoelion yn yr ardal adeiladu i greu tyllau yn y cardfwrdd.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau rhifedd y plant yn effeithiol. Er enghraifft, rhoddir cyfleoedd buddiol i blant gyfrif sawl darn o basta sydd ar gordyn a sawl llond llwyaid o dywod sydd eu hangen i lenwi tin cacennau.

Mae’r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i’r plant ymgolli yn eu chwarae a datblygu eu medrau creadigol yn llwyddiannus. Mae’r plant yn cael cyfleoedd i chwarae rôl a defnyddio’u dychymyg a’u brwdfrydedd i ail-fyw profiadau go iawn, er enghraifft drwy chwarae’n fwriadus ac efelychu meddyg yn trin claf. Mae ymarferwyr yn sicrhau rhyddid a dewis i blant gael mynediad at offer yn yr ardal fewnol a thu allan sy’n eu galluogi i gael cyfnodau hir o chwarae di-dor. Mae’r ddarpariaeth apelgar hon yn rhoi cyfle i bob un plentyn chwarae a chanolbwyntio am gyfnodau estynedig. Mae’r ymarferwyr yn cynnal perthynas gynnes, gefnogol â phlant. Yn yr arfer orau, maent yn cymryd rhan mewn cyd-chwarae, gwrando'n astud ac yn rhyngweithio ar lefel y plentyn yn llwyddiannus.

Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau addas sy’n cyfrannu’n gadarnhaol at ddatblygiad cymdeithasol, moesol, diwylliannol ac ysbrydol y plant. Maent yn trefnu ymweliadau buddiol â’r gymuned leol, megis ymweliadau i’r llyfrgell a chartrefi’r henoed, sy’n cefnogi plant i ddatblygu gwell ddealltwriaeth o’u hamgylchedd. Mae ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd buddiol i ddysgu am ddigwyddiadau mewn diwylliannau eraill.

Mae ymarferwyr yn datblygu eu gallu i gofnodi arsylwadau a chyflawniadau plant. Ar y cyfan, maent yn casglu gwybodaeth am ddiddordebau’r plant a’r hyn maent yn ei wneud

yn briodol. Fodd bynnag, nid yw arsylwadau ymarferwyr bob amser yn canolbwyntio'n ddigon manwl ar ddatblygiad y plentyn unigol. O ganlyniad, nid yw eu hasesiadau'n ddigon cadarn i nodi'r cam nesaf yn y dysgu, nac yn ddigon effeithiol i fod o ddefnydd ymarferol wrth gynllunio. Mae'r ymarferwyr yn ymgysylltu'n effeithiol â rhieni a gofalwyr trwy rannu lluniau a chofnod o gyflawniadau'r plentyn drwy gyfryngau digidol.

## Yr amgylchedd: Da

Mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch y safle drwy weithredu trefniadau cadarn a chlir. Mae mynediad i'r lleoliad yn cael ei reoli'n briodol, er enghraifft drwy system gloch a chloeon ar ddrysau mewnol i atal mynediad i unrhyw un heb awdurdod. Mae arweinwyr yn gosod trefniadau cofnodi ymwelwyr clir ac yn trefnu ymarferion rheolaidd i ymarfer gweithdrefnau argyfwng. Maent yn defnyddio ystod eang o asesiadau risg i nodi a rheoli peryglon, ac mae'r rhain yn cael eu diweddaru'n rheolaidd i gynnwys asesiadau penodol. Mae ymarferwyr yn rhan o greu'r asesiadau ac yn ymwybodol o gamau gweithredu i gefnogi plant. Maent yn defnyddio system ddyddiol o wirio ardaloedd i gynnal safonau uchel o lanweithdra a diogelwch. Mae ymarferwyr hefyd yn cefnogi plant i gymryd risgiau addas i'w hoedrannau a'u camau datblygiadol, ac yn addasu a newid adnoddau o fewn y ddarpariaeth yn ddibynnol ar anghenion y plant.

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd croesawgar, cynnes a diogel sy'n elwa ar olau naturiol a thymheredd addas. Maent yn trefnu'r amgylchedd mewnol yn effeithiol i greu mannau gwahanol, gan gynnwys corneli darllen, adeiladu a chreadigol. Mae gofod penodol ar gael ym mhob ystafell sy'n cynnig cyfleoedd addas i blant ymlacio neu archwilio ardal synhwyraidd llawn goleuadau, defnyddiau a theganau gwahanol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn cefnogi plant i ymgysylltu'n briodol o fewn yr amgylchedd ac i wneud dewisiadau syml am eu chwarae. Mae'r ardaloedd awyr agored yn ddiogel ac yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu medrau corfforol, er enghraifft cydbwyso, dringo ac adeiladu.

Mae arweinwyr yn darparu amrywiaeth addas o adnoddau sy'n cefnogi dysgu a chwarae'r plant. Mae'r adnoddau yn amrywiol ac wedi'u trefnu'n fwriadol i annog eu hannibyniaeth a'u chwilfrydedd. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod defnyddiau naturiol, adnoddau wedi'u hailgylchu ac adnoddau byd go iawn yn cefnogi chwarae dychmygus y plant. Mae arddangosfeydd o waith a gweithgareddau'r plant yn weladwy, yn cyfrannu at ymdeimlad o berthyn ac yn rhannu llwyddiannau pob plentyn.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol

Mae gan yr arweinydd ddisgwyliadau uchel ac mae'n cymryd rôl weithgar yn y lleoliad gan hyrwyddo ethos positif, cynhwysol a gweithgar. Ar ôl cyfnod o newidiadau ac ailddosbarthu cyfrifoldebau, mae'r arweinwyr wedi ffocysu ar greu amgylchedd cartrefol ar gyfer y plant a'r ymarferwyr er mwyn cefnogi eu lles a'u datblygiad. Mae ganddynt

ddealltwriaeth gadarn o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg. Maent yn adnabod y lleoliad yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth addas o’i gryfderau a’r meysydd i’w gwella. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn ystyried barn rhanddeiliaid wrth greu cynlluniau gwelliant parhaus.

Mae datganiad o ddiben clir ar waith sy’n rhoi darlun cywir o’r lleoliad, gan alluogi rhieni a gofalwyr i wneud penderfyniadau gwybodus. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn rhoi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru mewn modd amserol am unrhyw ddigwyddiadau a newidiadau i'r manylion a nodir yn y rheoliadau, ond gwelwyd cofnodion priodol yn ystod yr arolygiad. Mae hwn yn faes i’w wella ac rydym yn disgwyl i’r lleoliad wneud gwelliannau.

Mae arweinwyr yn dangos ymrwymiad parhaus i wella’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau’r plant. O ganlyniad, mae eu harferion rheolaidd a’u hagweddau cadarnhaol yn creu amgylchedd cefnogol sy’n cynnig profiadau buddiol i blant.

Mae arweinwyr yn gwirio addasrwydd ymarferwyr, gan sicrhau bod ganddynt y medrau, y profiad a’r cymwysterau priodol i gyflawni eu rolau. Mae arweinwyr yn gweithredu trefniadau addas ar gyfer cynllunio gwelliant ac yn nodi blaenoriaethau perthnasol i wella’r ddarpariaeth. Maent yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau a’u cyfrifoldebau’n glir. Fodd bynnag, er bod diwylliant o gyfathrebu anffurfiol dyddiol, nid yw pob ymarferydd yn derbyn goruchwyliaeth un-i-un yn rheolaidd ac mae hyn yn faes i’w wella. Mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i fyfyrio’n systematig ar ansawdd eu harferion a chodi materion yn ymwneud â datblygiad proffesiynol, ac rydym yn disgwyl i’r lleoliad wneud gwelliannau.

Mae ymarferwyr yn cydweithio’n effeithiol ag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol ac yn gweithredu ar gyngor defnyddiol swyddogion y mudiadau cefnogi. Mae hyn yn cyfrannu’n sylweddol at ddatblygiad y ddarpariaeth. Mae arweinwyr yn cydweithio’n agos â gwasanaethau anghenion dysgu ychwanegol yr awdurdod i sicrhau eu bod yn cefnogi’r plant yn effeithiol. Maent yn agored iawn i dderbyn pob cyngor ac yn barod i addasu eu darpariaeth yn sgil mewnbwn arbenigwyr. Mae arweinwyr yn creu perthynas gefnogol â’r rhieni a gofalwyr. Maent yn cyfathrebu’n gyson â nhw ac yn eu cynnwys ym mhrofiadau dysgu’r plant yn effeithiol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/08/2026